

# **Cynllun Datblygu Lleol Conwy i'w Archwilio Gan y Cyhoedd 2007 – 2022 (Argraffiad Diwygiedig 2011)**



## **PAPUR CEFNDIR 35 DIWYGIEDIG - CYFLWYNO**

**Cyfiawnhad ar gyfer dileu'r Safleoedd Datblygu  
Bwriedig Sydd Wedi'u Nodi yng Nghynllun  
Datblygu Lleol Diwygiedig i'w Archwilio gan y  
Cyhoedd Mis Mawrth 2011**

**Awst 2012**

Gellir gweld a lawrlwytho'r ddogfen hon ar wefan y Cyngor ar: [www.conwy.gov.uk/cdll](http://www.conwy.gov.uk/cdll). Mae copïau hefyd ar gael yn y prif lyfrgelloedd ac yn swyddfeydd y Cyngor a gellir eu cael gan y Gwasanaeth Polisi Cynllunio, 26 Castle Street, Conwy LL32 8AY neu drwy ffonio (01492) 575461. Os hoffech gael gair â swyddog cynllunio sy'n gweithio ar y Cynllun Datblygu Lleol ynglŷn ag unrhyw agwedd o'r ddogfen hon a fyddech gystal â chysylltu â'r Gwasanaeth Polisi Cynllunio ar (01492) 575181 / 575124 / 575445 / 575447.

**Os hoffech gael rhan neu grynodedb o'r ddogfen hon ar gasét, mewn print bras, mewn Braille neu unrhyw ffurf arall, ffoniwch y Gwasanaeth Polisi Cynllunio ar (01492) 575461.**

## Cynnwys

	<b>Tudalen</b>
<b>1. Cyflwyniad.....</b>	<b>4</b>
<b>2. Asesu cynigion safle newydd neu wahanol .....</b>	<b>5</b>
<b>    Tabl 1: Dileu Safleoedd Tai a Safleoedd Tai Newydd Bwriedig.....</b>	<b>7</b>
<b>    Tabl 2: Dileu Safleoedd Cyflogaeth a Safleoedd Cyflogaeth Newydd Bwriedig ....</b>	<b>11</b>
<b>    Tabl 3: Dileu Isadeiledd ac Isadeiledd Newydd Bwriedig .....</b>	<b>12</b>
<b>    Tabl 4: Dileu Mwynau a Gwastraff a Mwynau a Gwastraff Newydd Bwriedi .....</b>	<b>13</b>
<b>    Tabl 5: Dileadau ac Ychwanegiadau Cyfleuster Cymunedol Bwriedig.....</b>	<b>14</b>

## 1. Cyflwyniad

- 1.1 Pwrpas y papur cefndir hwn yw nodi'r cyfiawnhad ar gyfer dileu safle datblygu (Tai a Chyflogaeth) o'r Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig i'w Archwilio gan y Cyhoedd yn 2011 a/neu'r dyraniad bwriedig o safleoedd newydd yn eu lle. Mae'r papur yn nodi'r cyd-destun polisi ar lefelau cenedlaethol a rhanbarthol ac yng ngoleuni'r cyd-destun hwn mae'n argymhell dull ar gyfer y Fwrdeistref Sirol. Mae crynodeb o'r sylwadau safle wedi'i nodi eto yn yr Adroddiad Ymgynghori CDLI diwygiedig.
- 1.2 Wrth baratoi ei Ddewis Strategaeth ac wrth ddiwallu anghenion defnydd tir y twf bwriedig (gweler BP/2 - 'Rhagamcaniadau Poblogaeth a Theuluoedd) yn 2006/07 galwodd y Cyngor am safleoedd datblygu posibl gan randdeiliaid, datblygwyr, asiantau a chyrrff statudol gyda'r bwriad o'u gwneud yn destun gwerthusiad llawn i bennu eu haddasrwydd ar gyfer dyrannu yn y CDLI. Trwy rybudd cyhoeddus (gweler yr Adroddiad Ymgynghori), cynigwyd cyfle i Gynghorau Tref a Chymuned, Aelodau Lleol, datblygwyr, tiffeddianwyr, cyrrff statudol a'r cyhoedd gyflwyno safleoedd posibl. Hefyd cysylltodd y Cyngor â darparwyr gwasanaeth cyhoeddus gan gynnwys adran wastraff trefol y cyngor, ac iechyd a gwasanaethau, i nodi os oedd angen cynnwys safleoedd ar gyfer unrhyw gyfleusterau ychwanegol yn y CDLI. Hefyd cafwyd ymgynghori cynnar gyda datblygwyr a thirfeddianwyr i gael gwybodaeth am safleoedd posibl nad oedd ar gael eisoes yng Nghyd Astudiaeth Argaeledd Tir Tai Conwy (gweler BP/5 - 'Astudiaeth Argaeledd Tir Tai'). Roedd hyn er mwyn osgoi cyflwyno nifer sylweddol o safleoedd ychwanegol yn ystod y cam archwilio, ac i sicrhau gellir darparu strategaeth y CDLI .
- 1.3 Mae'r dystiolaeth ategol sydd wedi ei nodi yn BP/21 – 'Asesu Darpariaeth Safle' oedd gyda'r CDLI i'w archwilio gan y cyhoedd cyntaf yn nodi'r gwerthusiad a chyfiawnhad llawn ar gyfer dewis safleoedd. Defnyddiwyd set eglur o feini prawf/systemau hidlo i sicrhau asesiad cadarn.
- 1.4 Ym mis Ebrill 2009 cyhoeddwyd CDLI i'w archwilio gan y cyhoedd cyntaf Conwy ar gyfer ymgynghori. Cyflwynwyd nifer uchel o safleoedd eraill i'r Cyngor i'w hystyried yn ogystal â gwrthwynebiadau a thystiolaeth newydd i awgrymu bod y dyraniadau bwriedig yn destun cyfyngiadau ac nid oedd modd eu darparu mwyach dros gyfnod y CDLI.

- 1.5 Er mwyn mynd i'r afael â'r prif bryderon a nodwyd yn y CDLI i'w Archwilio gan y Cyhoedd cyntaf, cyhoeddwyd y CDLI Diwygiedig i'w Archwilio gan y Cyhoedd i ymgynghori arno ym mis Mawrth 2011. Gellir dod o hyd i newidiadau i safleoedd o CDLI i'w Archwilio gan y Cyhoedd 2009 i 2011 a'r cyfiawnhad yn y fersiwn blaenorol o'r Papur Cefndir. Roedd y rhesymau dros rai o'r prif newidiadau i'r safleoedd yn cynnwys pryderon Llywodraeth Cynulliad Cymru (a elwir bellach yn Llywodraeth Cymru) ynglŷn â lefel twf a sylwadau Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru (AAC) ar y perygl o lifogydd yn ardal Towyn/ Bae Cinmel ac yn y cynllun cyntaf i'w Archwilio gan y Cyhoedd. Yn ystod y cyfnod ymgynghori ym mis Mawrth 2011, cyflwynwyd safleoedd datblygu posibl ychwanegol i'w hystyried. Gwnaethpwyd safleoedd a gyflwynwyd ar yr adeg hon, ynghyd â'r rhai a gafwyd yn 2009 ar gael i'r cyhoedd wneud sylwadau yn ystod y cyfnod ymgynghori sylwadau safle dilynol ym mis Tachwedd 2011.
- 1.6 Ers cyhoeddi'r CDLI Diwygiedig i'w Archwilio gan y Cyhoedd yn 2011, mae tystiolaeth o Uned Ymchwil a Gwybodaeth CBSC yn cefnogi gostyngiad yn y cynnydd yn y boblogaeth a ragwelwyd dros gyfnod y Cynllun (gweler BP/ 2). Mae hyn, ynghyd â'r sylwadau ychwanegol a dderbyniwyd a'r safleoedd a gyflwynwyd wedi arwain at y newidiadau a amlinellir yn y ddogfen hon.

## **2. Asesu cynigion safle newydd neu wahanol**

- 2.1 Mae'n angenrheidiol sicrhau fod safleoedd yn cael eu dewis mewn modd tryloyw er mwyn i'r Arolygydd fod yn hyderus bod broses cadarn wrth wneud newidiadau i Gynllun. Dan y system CDLI byddai llawer llai o safleoedd gwahanol (a alwyd o'r blaen yn "safleoedd hepgor" gan yr Arolygaeth Cynllunio) yn cael eu cyflwyno yn ystod y cam archwilio gan y cyhoedd, oherwydd byddai tiffeddianwyr, datblygwyr a thrigolion wedi cael mwy o gyfle i gymryd rhan yn gynharach ym mhroses baratoi'r CDLI. Mae'n hanfodol bod safleoedd yn cydsynio â strategaeth y CDLI a byddai'r CDLI yn gadarn pe baent yn cael eu cynnwys.
- 2.2 Mae'r safleoedd newydd bwriedig a nodir yn yr adroddiad hefyd wedi bod yn destun Gwerthusiad Cynladwyedd/ Asesiad Amgylcheddol Strategol (SA/SEA) (Gweler BP/10 - SA/SEA

2.3 Mae safle wedi ei dileu o'r CDLI Diwygiedig i'w Archwilio gan y Cyhoedd cyntaf o ganlyniad i ddau senario:

1. **Dileu o'r CDLI ond 'nid' oes safle arall wedi cymryd ei le.** Gallai cyfiawnhad dros hyn gynnwys problemau darparu fel isod:

- Daw rhagor o gyfyngiadau yn amlwg o ganlyniad i dystiolaeth newydd (e.e. mae data risg llifogydd newydd yn gwarantu bod y safle yn dueddol iawn o ddioddef llifogydd ac felly ni ellir ei ddarparu dros gyfnod y Cynllun)
- Nid yw'r tirfeddiannwr eisiau datblygu'r tir mwyach dros gyfnod y Cynllun.

Yn ogystal, nid yw rhai safleoedd wedi cael eu newid lle y mae colli'r safle yn gwella dosbarthiad gofodol twf, yn unol â BP/37 - 'Adroddiad Opsiynau Dosbarthu Twf' a rhagolygon llai o ran y boblogaeth ac aelwydydd (BP / 2).

2. **Dileu o'r CDLI ond safle gwahanol sy'n fwy cynaliadwy yn cymryd ei le.** Gallai cyfiawnhad dros hyn gynnwys materion darparu fel sydd wedi eu nodi isod:

- Os yw'r safle arall newydd yn cynrychioli lleoliad mwy cynaliadwy mewn perthynas ag asesiad yn erbyn Prawf Hierarchaeth Anheddau a Dilyniannol y Cyngor (ee mae'r safle yn cynnig opsiwn mwy realistig ar gyfer datblygu os gellir ei gynnwys o fewn terfyn lleoliad/anheddiad trefol presennol, yn safle tir llwyd ac mae'n cynrychioli lleoliad mwy cynaliadwy mewn perthynas â chysylltiadau'r safle a chyfleusterau â gwasanaethau allweddol).
- Gwerthusiad Cynladwyedd/Asesiad Amgylcheddol Strategol (SA/SEA).
- Os yw'r safle arall newydd ar gael i ddatblygu rŵan a byddai'n helpu darparu'r sicrwydd gofynnol i ddatblygwyr a'r gymuned leol mewn darparu'r Strategaeth Gynnydd o fewn cyfnod amser penodol a realistig.

2.4 Mae tablau 1, 2, 3, 4 a5 isod yn nodi'r safleoedd sydd wedi eu cynnig ar gyfer eu dileu/rhoi safle newydd yn eu lle a dyraniad cyffredinol. Mae'r cyfeiriau a roddir yn y tabl (e.e. Cyf: LDP H1) i ddibenion y BP hwn yn unig i alluogi cysylltu rhwydd gyda safleoedd eraill.

**Tabl 1: Dileu Safleoedd Tai a Safleoedd Tai Newydd Bwriedig**

Cyfeirnod	Safle	Dyrannwyd yn y CDLI diwygiedig i'w archwilio gan y cyhoedd 2011 (Do/ Naddo)	Newid	Rheswm dros Ddyrannu/ Dileu	Nifer Anheddau
<b>Ardal y Strategaeth Ddatblygu Trefol</b>					
<b>Abergele, Towyn a Bae Cinmel</b>					
	(Safle M20) Tir i'r De o Siamber Wen, <b>Abergele</b>	Do	Dileu	<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae dyraniad mwy ar safle'r parc busnes, yn ogystal â dwysedd uwch ar ddyraniadau eraill yn golygu gellir lleihau maint y dyraniad yn Abergele SE.</li> </ul>	Amherthnasol (Dilëwyd)
	(Safle 78) Llanfair Road, <b>Abergele</b>	Do	Dyrannu (Wrth Gefn)	<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae dyraniad mwy ar safle'r parc busnes, yn ogystal â dwysedd uwch ar ddyraniadau eraill yn golygu gall y safle hwn ddod yn safle wrth gefn</li> </ul>	100
<b>Bae Colwyn, Mochdre a Llandrillo yn Rhos</b>					
	(Safle 491) Douglas Road, <b>Bae Colwyn</b>	Do	Dileu	<ul style="list-style-type: none"> <li>Ddim wedi'i gynnwys bellach o fewn Uwchgynllun Bae Colwyn ac felly wedi cael ei ddileu o'r CDLI</li> </ul>	Amherthnasol (Dilëwyd)
	(Safle 489) Hen Swyddfa Dreth, Lansdowne Road, <b>Bae Colwyn</b>	Do	Dileu	<ul style="list-style-type: none"> <li>Ddim wedi'i gynnwys bellach o fewn Uwchgynllun Bae Colwyn ac felly wedi cael ei ddileu o'r CDLI</li> </ul>	Amherthnasol (Dilëwyd)
	(Safle 502) Llysfaen Road, <b>Hen Golwyn</b>	Naddo	Dyrannu (Wrth Gefn)	<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae mewn lleoliad mwy addas na safle 334</li> </ul>	20
	(Safle 334) Gyferbyn â Bryn Rodyn, <b>Hen Golwyn</b>	Do (Safle Wrth Gefn)	Dileu	<ul style="list-style-type: none"> <li>Lefelau wrth gefn is; ddim ei angen mwyach.</li> <li>Ffafir safle 355 o ran y berthynas gyda'r anheddiad presennol.</li> </ul>	Amherthnasol (Dilëwyd)

<b>Llandudno, Cyffordd Llandudno a Chonwy</b>					
	(Safle 14) Woodland, <b>Cyffordd Llandudno</b>	Do (Wrth Gefn)	Dyrannu	<ul style="list-style-type: none"> <li>Collwyd safleoedd mewn mannau eraill; mae hyn hefyd yn dod â dyraniadau'r CDLI yn nes at yr opsiwn gofodol a ffafrir.</li> </ul>	75
	(Safle CR12) Bodlondeb, <b>Conwy</b>	Do	Dileu	<ul style="list-style-type: none"> <li>Rhoi Penmaen Road, Conwy yn ei le. Fel safle PDL gyda llai o effaith gweledol (newid â ffocws fel cynigwyd gan y cyngor llawn)</li> </ul>	Amherthnasol (Dilëwyd)
	(Safle 452) Tir oddi ar Penmaen Road, <b>Conwy</b>	Naddo	Dyrannu	<ul style="list-style-type: none"> <li>Safle yn lle Bodlondeb, Conwy. Fel safle PDL gyda llai o effaith gweledol (newid â ffocws fel cynigwyd gan y cyngor llawn)</li> </ul>	30
	(Safle 367) Pentywyn Road, <b>Cyffordd Llandudno</b>	Do (Wrth Gefn)	Dileu	<ul style="list-style-type: none"> <li>Lefelau wrth gefn is; ddim ei angen mwyach.</li> </ul>	Amherthnasol (Dilëwyd)
<b>Llanfairfechan a Phenmaenmawr</b>					
	(Safle 384) I'r Gorllewin o Penmaen Park, <b>Llanfairfechan</b>	Do	Dyrannu (Wrth Gefn)	<ul style="list-style-type: none"> <li>Gyda safleoedd mwy cynaliadwy yn Llanfairfechan, mae hwn bellach yn safle wrth gefn i flaenoriaethu'r defnydd o'r PDL.</li> </ul>	45
	(Safle 429) Dexter Products, <b>Llanfairfechan</b>	Naddo	Dyrannu	<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae'r safle Tir Llwyd mewn lleoliad mwy cynaliadwy i'w ddyrannu na safle 384. Fel safle llai mae'n dod â dyraniadau Llanfairfechan yn nes at y rhagolwg twf is a'r opsiwn gofodol a ffafrir.</li> </ul>	15
	(Safle 521) Adeilad West Coast, <b>Llanfairfechan</b>	Naddo	Dyrannu	<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae'r safle Tir Llwyd mewn lleoliad mwy cynaliadwy i'w ddyrannu na safle 384. Fel safle llai mae'n dod â dyraniadau Llanfairfechan yn nes at y rhagolwg twf is a'r opsiwn gofodol a ffafrir.</li> </ul>	10



	(Safle 497) Gyferbyn â safle 205/328, <b>Llanfairfechan</b>	Do (Wrth Gefn)	Dileu	<ul style="list-style-type: none"> <li>Ddim ei angen mwyach oherwydd y rhagolygon poblogaeth ac aelwydydd is ynghyd â chyflwyno'r safleoedd Tir Llwyd llai.</li> </ul>	Amherthnasol (Dilëwyd)
	(Safle 205/328) Gyferbyn â Bryn Y Neuadd, <b>Llanfairfechan</b>	Do	Dileu	<ul style="list-style-type: none"> <li>Ddim ei angen mwyach oherwydd y rhagolygon poblogaeth ac aelwydydd is ynghyd â chyflwyno'r safleoedd Tir Llwyd llai.</li> </ul>	Amherthnasol (Dilëwyd)
	(Safle 515) Hen Safle Weighbridge, <b>Penmaenmawr</b>	Naddo	Dyrannu	<ul style="list-style-type: none"> <li>Dyma safle Tir Llwyd sy'n fwy hygrych ac mewn lleoliad mwy cynaliadwy na Cwm Road.</li> </ul>	12
	(Safle 26) Tir oddi ar Cwm Road, <b>Penmaenmawr</b>	Do	Dileu	<ul style="list-style-type: none"> <li>Ddim ei angen mwyach oherwydd y rhagolygon poblogaeth ac aelwydydd is ynghyd â chyflwyno'r safleoedd Tir Llwyd llai.</li> </ul>	Amherthnasol (Dilëwyd)
<b>Llanrwst</b>					
	(Safle 462) Safle I oddi ar A470, <b>Llanrwst</b>	Do	Dileu	<ul style="list-style-type: none"> <li>Dilëwyd o ganlyniad i risg llifogydd ar y safle yn dilyn asesiad canlyniad risg llifogydd.</li> </ul>	Amherthnasol (Dilëwyd)
	(Safle 460) F oddi ar Parry Road, <b>Llanrwst</b>	Do	Dileu	<ul style="list-style-type: none"> <li>Dilëwyd o ganlyniad i risg llifogydd ar y safle yn dilyn asesiad canlyniad risg llifogydd</li> </ul>	Amherthnasol (Dilëwyd)
	(Safle 455) Safle A i'r Gogledd o Lanrwst, <b>Llanrwst</b>	Do (Wrth Gefn)	Dyrannu	<ul style="list-style-type: none"> <li>Bydd y safle hwn rŵan yn ddyraniad yn lle'r safleoedd a gollwyd i risg llifogydd.</li> </ul>	50

(Safle 456) Safle B i'r Dwyrain o Lanrwst (Town Hill), <b>Llanrwst</b>	Do	Dileu	<ul style="list-style-type: none"> <li>Dilëwyd yn dilyn sylwadau oddi wrth Adran Briffyrdd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy</li> </ul>	Amherthnasol (Dilëwyd)
(Safle 458) Safle D i'r Dwyrain o Lanrwst , <b>Llanrwst</b>	Do (Wrth Gefn)	Dyrannu	<ul style="list-style-type: none"> <li>Safle Wrth Gefn yn flaenorol ond mae bellach wedi cael ei ddyrannu yn lle'r safleoedd a gollwyd i risg llifogydd yn Llanrwst</li> </ul>	60
(Safle 459) Safle E Gyferbyn â Bryn Hyfryd, <b>Llanrwst</b>	Do (Wrth Gefn)	Dyrannu	<ul style="list-style-type: none"> <li>Safle Wrth Gefn yn flaenorol ond mae bellach wedi cael ei ddyrannu yn lle'r safleoedd a gollwyd i risg llifogydd yn Llanrwst</li> </ul>	50
<b>Ardal y Strategaeth Ddatblygu Gwledig</b>				
Prif Bentreffi – Haen 1				
(Safle 57) Gyferbyn â Varde, <b>Dwygyfylchi</b>	Do	Dileu	<ul style="list-style-type: none"> <li>Dilëwyd o'r CDLI ar gais perchennog y safle.</li> </ul>	Amherthnasol (Dilëwyd)
(Safle 53) I'r Gogledd o Groesffordd, <b>Dwygyfylchi</b>	Do (Wrth Gefn)	Dyrannu	<ul style="list-style-type: none"> <li>Wedi'i gynnwys fel safle Wrth Gefn yn y CDLI diwygiedig i'w archwilio gan y cyhoedd ond bellach wedi'i gynnwys fel dyraniad yn lle safle 57.</li> </ul>	30
(Safle 86) Oddi ar Trem Y Dom, <b>Llysfaen</b>	Do (Wrth Gefn)	Dileu	<ul style="list-style-type: none"> <li>Nid ydym yn dyrannu safleoedd wrth gefn sydd o fewn ardaloedd gwledig.</li> <li>Hefyd, problemau darparu o ran perchnogaeth.</li> </ul>	Amherthnasol (Dilëwyd)
(Safle 222) Tir oddi ar Gwydyr Road, <b>Dolgarrog</b>	Do	Dileu	<ul style="list-style-type: none"> <li>Dilëwyd o'r CDLI o ganlyniad i risg llifogydd.</li> </ul>	Amherthnasol (Dilëwyd)
(Safle MS25) Hen Waith Alwminiwm, <b>Dolgarrog</b>	Naddo	Dyrannu	<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae rhan o'r safle bellach wedi'i gynnwys fel dyraniad yn lle'r safle tai a gollwyd yn Nolgarrog.</li> </ul>	30

(Safle 264) I'r Dwyrain o Aled View, <b>Llansannan</b>	Do	Dileu	<ul style="list-style-type: none"> <li>Dilëwyd o'r CDLI ar gais perchennog y safle.</li> </ul>	Amherthnasol (Dilëwyd)
(Safle 289) I'r Gogledd o Lansannan, <b>Llansannan</b>	Naddo	Dyrannu	<ul style="list-style-type: none"> <li>Cyflwynwyd safle newydd; rŵan wedi'i gynnwys yn lle safle rhif 264, i'r Dwyrain o Aled View.</li> </ul>	25

**Tabl 2: Dileu Safleoedd Cyflogaeth a Safleoedd Cyflogaeth Newydd Bwriedig**

Cyfeirnod	Safle	Wedi ei ddyrannu yn y CDLI i'w archwilio gan y cyhoedd cychwynnol (Do/Naddo)	Parhau fel Dyraniad neu Ddileu (Dyrannu/Dileu)	Rheswm dros Ddyrannu/Dileu	Hectarau
	Ardal y Strategaeth Ddatblygu Trefol				
(Safle CR12) Bodlondeb, <b>Conwy</b>	Do	Dileu	<ul style="list-style-type: none"> <li>Rhoi Penmaen Road, Conwy yn ei le. Fel safle PDL gyda llai o effaith gweledol (newid â ffocws fel cynigwyd gan y cyngor llawn).</li> </ul>	Amherthnasol (Dilëwyd)	
(Safle 452) Tir oddi ar Penmaen Road, <b>Conwy</b>	Naddo	Dyrannu	<ul style="list-style-type: none"> <li>Safle yn lle Bodlondeb, Conwy. Fel safle PDL gyda llai o effaith gweledol (newid â ffocws fel cynigwyd gan y cyngor llawn)</li> </ul>	0.5	
(Safle CR42) Cae Triongl, <b>Llandudno</b>	Do	Dileu	<ul style="list-style-type: none"> <li>Does dim angen y safle mwyach ar gyfer cyflenwad wrth gefn; mae'r tir yn Abergele SE wedi cael ei symud o ddyrannu i fod yn un wrth gefn ac fe ffafirir hyn.</li> </ul>	Amherthnasol (Dilëwyd)	

Ardal y Strategaeth Ddatblygu Gwledig				
(Safle R39) Cwt Sgowtiaid, <b>Llansannan</b>	Do	Dileu	<ul style="list-style-type: none"> <li>Does dim angen y safle mwyach yn dilyn gostyngiad yn y gofyniad tir cyflogaeth.</li> </ul>	Amherthnasol (Dilëwyd)

**Tabl 3: Dileu Isadeiledd ac Isadeiledd Newydd Bwriedig**

Safle (cyf)	Wedi ei ddyrannu yn y CDLI i'w archwilio gan y cyhoedd cychwynnol (Do Naddo)	Parhau fel Dyraniad neu Ddileu (Dyrannu/Dileu)	Rheswm dros Ddyrannu/Dileu	Gofyniad
Ardal y Strategaeth Ddatblygu Trefol				
Ffordd Osgoi Llanrwst, <b>Llanrwst</b>	Naddo	Dyrannu	<ul style="list-style-type: none"> <li>Ar gais Llywodraeth Cymru</li> </ul>	Dynodedig
Maes Parcio oddi ar Derwen Lane, <b>Llandrillo yn Rhos</b>	Naddo	Dyrannu	<ul style="list-style-type: none"> <li>Cynyddu'r lle parcio ac osgoi problemau mawr gyda chytundeb perchennog y tir.</li> </ul>	Dynodedig

**Tabl 4: Dileu Mwynau a Gwastraff a Mwynau a Gwastraff Newydd Bwriedi**

Safle (cyf)	Wedi ei ddyrannu yn y CDLI i'w archwilio gan y cyhoedd cychwynnol (Do/Naddo)	Parhau fel Dyraniad neu Ddileu (Dyrannu/Dileu)	Rheswm dros Ddyrannu/Dileu	Gofyniad/Gweithred
<b>Ardal y Strategaeth Ddatblygu Trefol</b>				
Bron Y Nant, <b>Mochdre</b>	Do	Dileu	<ul style="list-style-type: none"> <li>▪ Mae diogelu safleoedd cyflogaeth / cyfleuster gwastraff wedi'i gynnwys o dan bolisiau eraill yn y Cynllun. Mater o falltod, os diogelir dan y polisi.</li> </ul>	Amherthnasol (Dilëwyd)
Gofer, <b>Abergele/Towyn</b>	Do	Dileu	<ul style="list-style-type: none"> <li>▪ Mae diogelu safleoedd cyflogaeth / cyfleuster gwastraff wedi'i gynnwys o dan bolisiau eraill yn y Cynllun. Mater o falltod, os diogelir dan y polisi.</li> </ul>	Amherthnasol (Dilëwyd)
Chwarel Llanddulas, <b>Llanddulas</b>	Do	Dileu	<ul style="list-style-type: none"> <li>▪ Mae diogelu safleoedd cyflogaeth / cyfleuster gwastraff wedi'i gynnwys o dan bolisiau eraill yn y Cynllun. Mater o falltod, os diogelir dan y polisi.</li> </ul>	Amherthnasol (Dilëwyd)
Plas Yn Dre, <b>Llanrwst</b>	Do	Dileu	<ul style="list-style-type: none"> <li>▪ Mae diogelu safleoedd cyflogaeth / cyfleuster gwastraff wedi'i gynnwys o dan bolisiau eraill yn y Cynllun. Mater o falltod, os diogelir dan y polisi.</li> </ul>	Amherthnasol (Dilëwyd)

**Tabl 5: Dileadau ac Ychwanegiadau Cyfleuster Cymunedol Bwriedig**

Safle (cyf)	Wedi ei ddyrannu yn y CDLI i'w archwilio gan y cyhoedd cychwynnol (Do/Naddo)	Parhau fel Dyraniad neu Ddileu (Dyrannu/Dileu)	Rheswm dros Ddyrannu/Dileu	Gofyniad/Gweithred
<b>Ardal y Strategaeth Ddatblygu Trefol</b>				
Gyferbyn â Meadowsweet, <b>Llanrwst</b>	Do	Dileu	<ul style="list-style-type: none"> <li>▪ Gwnaeth AAC sylwadau mewn perthynas â risg llifogydd.</li> </ul>	Amherthnasol (Dilëwyd)
(Safle 79/80/81/82) De Ddwyrain Abergele, <b>Abergele</b>	Naddo	Dyrannu	<ul style="list-style-type: none"> <li>▪ Gwnaethpwyd sylwadau am lotments yn Abergele</li> </ul>	Safle defnydd cymysg wedi'i dyrannu.
I'r Gorllewin o Lodge Gwrych, <b>Abergele</b>	Naddo	Dyrannu	<ul style="list-style-type: none"> <li>▪ Dyraniad newydd ar gyfer lotments, oherwydd sylwadau a wnaed gan drigolion Abergele o ran y ddarpariaeth lotments.</li> </ul>	Dyrannu safle lotment
(Safle 455) Safle A i'r gogledd o Lanrwst, <b>Llanrwst</b>	Naddo	Dyrannu	<ul style="list-style-type: none"> <li>▪ Dyrannwyd ar ôl colli safle defnydd cymysg blaenorol (460) o ganlyniad i risg llifogydd.</li> </ul>	Safle defnydd cymysg wedi'i dyrannu.

(Safle 460) Oddi ar Parry Road, <b>Llanrwst</b>	Do	Dileu	<ul style="list-style-type: none"> <li>Safle defnydd cymysg wedi cael ei ddileu o ganlyniad i risg llifogydd.</li> </ul>	Amherthnasol (Dilëwyd)
(Safle 53) I'r Gogledd o Groesffordd, <b>Dwygyfylchi</b>	Naddo	Dyrannu	<ul style="list-style-type: none"> <li>Dyraniad defnydd cymysg newydd yn lle safle 57</li> </ul>	Safle defnydd cymysg wedi'i dyrannu.
(Safle 57) Gyferbyn â Vardre, <b>Dwygyfylchi</b>	Do	Dileu	<ul style="list-style-type: none"> <li>Dilëwyd o'r CDLI ar gais perchennog y safle.</li> </ul>	Amherthnasol (Dilëwyd)
(Safle 176) Esgyryn, <b>Cyffordd Llandudno</b>	Do	Dyrannu	<ul style="list-style-type: none"> <li>Galw am le i lotments yn ardal Conwy; dewiswyd safle gan fod diffyg safleoedd addas yng Nghonwy.</li> </ul>	Safle defnydd cymysg wedi'i dyrannu.
The Quiet Zone, <b>Towyn</b>	Do	Dileu	<ul style="list-style-type: none"> <li>Dilëwyd o ganlyniad i bryderon oddi wrth Priffyrdd mewn perthynas â diffyg parcio.</li> </ul>	Amherthnasol (Dilëwyd)
Princes Green, <b>Bae Penrhyn</b>	Do	Dileu	<ul style="list-style-type: none"> <li>Dilëwyd o ganlyniad i bryderon oddi wrth Priffyrdd mewn perthynas â diffyg parcio.</li> </ul>	Amherthnasol (Dilëwyd)

	Tan Y Bryn, <b>Llandrillo yn Rhos</b>	Do	Dileu	<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae'r safle lotment hwn wedi cael ei gwblhau ac nid oes angen ei ddyrannu mwyach.</li> </ul>	Amherthnasol (Dilëwyd)
	Penmaen Road, <b>Conwy</b>	Do	Dileu	<ul style="list-style-type: none"> <li>Halogi o hen safle tirlenwi.</li> </ul>	Amherthnasol (Dilëwyd)